OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 639 (Cy.72)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *18 Mawrth 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *18 Mawrth 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *8 Ebrill 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraff 9 o Atodlen 1 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2013 ac maent yn dod i rym ar 8 Ebrill 2013.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) 1992

**2.** Mae paragraff 3(a) o'r Atodlen i Reoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) 1992(**3**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) ym mharagraff (i) yn lle "a higher rate" rhodder "an";

(b) ym mharagraff (ii) ar ôl "highest" mewnosoder "or middle", ac ar ôl "section 72(4)(a)" mewnosoder "or section 72(4)(b)";

(c) ar ddiwedd paragraff (iii) hepgorer "or"; a

(d) ar ôl paragraff (iv) mewnosoder—

"or

(**1**) 1992 p.14.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) O.S. 1992/552. Diwygiwyd paragraff 3(a) o'r Atodlen gan O.S. 1994/540 ac O.S. 1996/637.

(v) the standard or enhanced rate of the daily living component of personal independence payment under section 78(3) of the Welfare Reform Act 2012(**4**);".

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, un o Weinidogion Cymru

18 Mawrth 2013

(**4**) 2012 p.5.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) 1992 ("Rheoliadau 1992") yn rhagnodi amodau y mae'n rhaid i weithwyr gofal a gwahanol bersonau o ddisgrifiadau eraill eu cyflawni er mwyn cael eu diystyried at ddibenion disgowntiau'r dreth gyngor y mae adran 11 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992") yn rhagnodi ar eu cyfer.

Mae rheoliad 2(a) a (b) yn diwygio amodau Rheoliadau 1992 fel bod gweithwyr gofal sy'n darparu gofal i berson sydd â hawl i lwfans gweini ar unrhyw gyfradd, neu'r gyfradd uchaf neu ganol o'r rhan o lwfans byw i'r anabl sydd ar gyfer gofal dan Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992, yn cyflawni'r gofynion angenrheidiol i gael eu diystyried at ddibenion adran 11 o Ddeddf 1992.

Mae rheoliad 2(c) a (d) yn diwygio'r gofyniad yn Rheoliadau 1992 fel bod gweithwyr gofal sy'n darparu gofal i berson sydd â hawl i gyfradd safonol neu gyfradd uwch y rhan o'r taliad annibyniaeth bersonol dan y Ddeddf Diwygio Lles 2012 sydd ar gyfer byw bob dydd yn cyflawni'r gofynion angenrheidiol i gael eu diystyried at ddibenion adran 11 o Ddeddf 1992.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, nid ystyriwyd bod angen cynnal asesiad effaith rheoleiddiol ar y costau a'r manteision tebygol o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.